SFLSCM120

Gweinyddu contractau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweinyddu contractau. Mae'n cynnwys cael awdurdodiad, cyfarwyddiadau a gwybodaeth wrth weinyddu contractau. Mae hefyd yn cynnwys darparu dogfennau, nodi problemau, cyfnewid gwybodaeth a chadarnhau bod y contractau yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg llwythi neu reoli trafnidiaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cael yr awdurdodiad gofynnol i weinyddu'r **contract**
2. cael ac egluro gwybodaeth gan **gydweithwyr** i gefnogi trafod y **contract**
3. darparu dogfennau a nodwyd yn y **contract**
4. dadansoddi gwybodaeth am ganlyniadau **contract**
5. nodi ac ymdrin â phroblemau'n ymwneud â chynnwys a chanlyniadau'r **contract**
6. cyfnewid gwybodaeth am gynnwys a chanlyniadau'r **contract**
7. cadarnhau bod y **contract** yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. nodau strategol, amcanion a gweithgareddau eich sefydliad mewn perthynas â gweinyddu contractau
2. damcaniaethau, modelau ac arferion rheoli **cadwyn gyflenwi**
3. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad ar brosesau **cadwyn gyflenwi**
4. sut i weinyddu contractau ar gyfer eich sefydliad
5. dulliau a gweithdrefnau gweinyddu **contract** eich sefydliad
6. damcaniaethau, modelau ac arferion caffael
7. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol ar gyfer gweinyddu **contractau**
8. y mathau o **ddulliau cyfathrebu** a gweithdrefnau a ddefnyddir gan eich sefydliad i weinyddu **contractau**

Gweinyddu contractau

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2018
Indicative Review Date	Ionawr 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFLSCM120
Galwedigaethau perthnasol	Manwerthu a chyfanwerthu ; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Rheoli Cadwyn Gyflenwi
Geiriau Allweddol	gweinyddu; gweinyddu; contractau; cadwyn gyflenwi